Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Coedffranc
Stanley Road
Sgiwen
Castell-nedd
SA10 6LP

04/03/2025

Annwyl Tim Richards

**Ymweliad interim:** Chwefror 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Coedffranc i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Hydref 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y meysydd ffocws hyn. Dylai arweinwyr ddefnyddio'r canfyddiadau hyn i gefnogi mwy o welliannau yn y meysydd hyn.

At ei gilydd, mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella ac mae ganddynt gynlluniau addas ar waith i barhau i symud yr ysgol ymlaen.

**Ffocws yr ymweliad**

**Datblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddisgwyliadau staff ar gyfer dilyniant disgyblion trwy'r ysgol a gwella'r defnydd o strategaethau asesu i gefnogi cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol.**

- Mae uwch arweinwyr ac athrawon yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o sut olwg ddylai fod ar gynnydd disgyblion mewn medrau wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent wedi rhoi model llwyddiannus ar waith ar gyfer mathemateg ac mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth well o ddilyniant mewn mathemateg erbyn hyn. Mae cynlluniau ar waith i ailadrodd hyn ar gyfer llythrennedd a meysydd dysgu eraill dros gyfnod.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant i ddatblygu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant effeithiol. Mae llawer o athrawon bellach yn defnyddio hyn, ochr yn ochr â'u dealltwriaeth o ddilyniant mewn mathemateg i addysgu gwersi grŵp â ffocws sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol. Fodd bynnag, wrth gynllunio gweithgareddau carwsél annibynnol mewn mathemateg a rhifedd, nid yw gweithgareddau bob amser yn gweddu i anghenion disgyblion yn ddigon da.
- Mae arweinwyr ac athrawon yn dechrau defnyddio ystod o wybodaeth asesu yn effeithiol i fonitro cynnydd unigolion a grwpiau o ddisgyblion ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r gwaith hwn, ac mae'n rhy gynnar i weld ei effaith ar gynllunio a darpariaeth ar lefel briodol.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr ar lafar i ddisgyblion yn ystod gwersi i'w cynorthwyo a'u herio â'u tasgau dysgu. Mae adborth ar waith a gofnodir mewn llyfrau yn llai effeithiol ac nid yw bob amser yn cynorthwyo disgyblion i ddeall eu camau nesaf mewn dysgu.
- Yn ddiweddar, mae pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant i arsylwi a chofnodi dysgu yn llwyddiannus. Yn y dosbarthiadau iau, mae cynorthwywyr addysgu yn defnyddio hyn yn effeithiol i gofnodi dysgu a chynorthwyo'r athro dosbarth ag asesu cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn dechrau monitro'r gwaith hwn yn effeithiol ac yn cydnabod bod angen addasu'r dull hwn i sicrhau arsylwadau dysgu effeithiol i gefnogi asesu cynnydd ar gyfer disgyblion hŷn.

**Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm ar y lefel y maent yn abl i wneud hynny.**

- Ers yr arolygiad craidd, mae'r pennaeth dros dro wedi gweithio'n effeithiol gydag uwch arweinwyr i fonitro a gwerthuso addysgu a dysgu mewn mathemateg a rhifedd ar draws yr ysgol.
- Mae uwch arweinwyr yn defnyddio ymchwil academaidd yn briodol i lywio camau strategol. Mae hyn wedi arwain at ffocws ysgol gyfan ar ymagwedd amlsynhwyraidd at fathemateg. O ganlyniad, mae cysondeb gwell mewn addysgu mathemateg ar draws yr ysgol.
- Mae dysgu proffesiynol diweddar wedi cynorthwyo staff i ennill dealltwriaeth well o ddatblygu medrau rhifedd yn raddol. Maent wedi defnyddio'r ddealltwriaeth hon i gynllunio addasiadau priodol i addysgeg a darpariaeth.
- Mewn llawer o'r dosbarthiadau ieuengaf, mae athrawon yn sicrhau bod offer ymarferol ar gael yn hawdd i ddisgyblion ei ddefnyddio yn annibynnol. Mae arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd datblygu'r amgylcheddau dysgu ymhellach, fel bod disgyblion ar draws yr ysgol yn gallu defnyddio a chymhwyso'u medrau rhifedd yn annibynnol.

- Mae athrawon yn dechrau cynllunio cyfleoedd dilys a phwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso’u medrau mathemategol, ac mae llawer o ddisgyblion yn dechrau cymhwyso’u medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, megis dechrau y mae’r gwaith hwn ac mae arweinwyr yn cydnabod bod angen sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol.

Gellir gweld adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6712233

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol